# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen ma gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

| |
|---|
| Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydiad Arfordirol Cyngor Gwynedd. |

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

| |
|---|
| Nod y strategaeth yw lleihau'r perygl llifogydd ac erydu arfordirol i bobl a chymunedau Gwynedd yn unol â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae gan y Strategaeth Leol 5 prif amcan sy'n cynnwys:<br>1: Anelu at leihau lefel y perygl llifogydd ac erydu arfordirol i drigolion Gwynedd<br>2: Datblygu ymhellach ddealltwriaeth o berygl llifogydd i Wynedd ac effeithiau newid hinsawdd<br>3: Parhau i weithio gyda'r holl gyrff perthnasol i sicrhau datblygiad priodol a chynaliadwy yng Ngwynedd<br>4: Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac erydu arfordirol lleol<br>5: Cydweithio â'r holl Awdurdodau Rheoli Risg eraill a grwpiau/cyrff perthnasol i sicrhau ymateb cydlynol i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol. |

Mae gan bob un o'r pum amcan gyfres sylfaenol o gamau gweithredu a gaiff eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r pum prif amcan ac mae rhain i'w gweld ar dudalen 55 o'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (fersiwn drafft).

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

YGC, Cyngor Gwynedd

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Mae'r asesiad yma wedi ei gynnal yn ystod Rhagfyr 2023 a'i adolygu yn Mai 2024. Bydd unrhyw ystyriaethau ychwanegol sydd yn deillio o'r asesiad yma yn cael eu cynnwys yn y drafft terfynol o'r strategaeth.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad?

Mae'r asesiad yma yn cael ei gynnal gan YGC ar ran Cyngor Gwynedd fel Corff Arweiniol Llifogydd ac awduron y Strategaeth Leol. Er mwyn gweithredu a chyflawni canlyniadau'r asesiad yma, bydd Gwynedd yn cydweithio gydag Awdurdodau Rheoli Risg, aelodau etholedig a thrigolion Gwynedd er mwyn cyflawni'r Strategaeth Leol. Bydd canfyddiadau'r asesiad yma yn cael eu mabwysiadu o fewn y ffyrdd o weithio, gyda'r holl fudd-ddeiliaid yn cael eu hysbysu o hyn.

### 2.2. Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglyn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?

Ymgynghorir ar y Strategaeth Leol Ddrafft gyda'r cyhoedd yng Ngwynedd. Bydd holiadur ymgynghori ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd gyda chopïau papur ar gael os oes angen.

Bydd trigolion Gwynedd yn cael eu hannog i gwblhau a dychwelyd yr holiadur drwy ddefnyddio gwefan y Cyngor, y wasg leol, cyfryngau cymdeithasol a thrwy fforwm staff ac aelodau etholedig.

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Daeth 77 ymateb i law i'r ymgynghoriad.

O ran detholiad oedran yr ymatebwyr roedd 29% yn perthyn i'r grŵp oedran 65-74 oed, gyda 23% yn perthyn i'r grŵp oedran 55-64 oed. Roedd 24% o'r ymatebwyr rhwng 16 a 54 oed ac yna 14% dros 75 oed. Nododd 10% o ymatebwyr bod well ganddynt i beidio nodi eu grŵp oedran.

Fel rhan o'r holiadur, gofynnwyd wrth yr ymatebwyr ateb beth mae nhw'n gredu fydd effaith y strategaeth ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w defnyddio a'i statws o fewn y gymuned. Roedd 69% yn nodi effaith niwtral gyda 15.5% yn nodi effaith bositif ac 15.5% yn nodi effaith negyddol. Nododd rhai, fel rhesymeg perthnasol i'r cwestiwn bwyntiau megis bod angen cynnal cyfarfodydd agored gyda'r Cynghorau Cymuned ac addasu'r adroddiad er lles, angen cyfathrebu mewn iaith o ddewis trigolion ayyb.

Gofynnwyd hefyd i ymatebwyr os oeddent o'r farn bod cyflwyno'r Strategaeth Llifogydd Lleol Drafft yn debygol o gael effaith ar bobl sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol? Roedd hwn yn gwestiwn ben agored ac fe ymatebodd 30 o'r 77 i'r cwestiwn yma. Roedd yr amrywiaeth yn yr ymatebion yn cynnwys sylwadau megis:

- *"Effaith dda os wnaiff weithio"*
- *"Y tlotaf mewn cymdeithas sydd fel arfer yn dioddef fwyaf"*
- *"Bydd pobl â lefelau incwm is angen mwy o help i warchod eu cartrefi"*
- *"Gwnaiff, dylia eu helpu nhw"*

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd yn deillio o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o'r 22 Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru lunio Strategaeth Leol.

Mae gan Gymru Strategaeth Genedlaethol lefel uwch hefyd. Mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol (FCERM) yng Nghymru (Strategaeth Genedlaethol) yn nodi bod dros 245,000 o eiddo ledled Cymru mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr a dŵr wyneb, gyda bron i 400 eiddo hefyd mewn perygl rhag erydu arfordirol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn egluro, wrth i'r hinsawdd newid, y gallwn ddisgwyl i'r risgiau hynny gynyddu, gyda llifogydd amlach a mwy difrifol, lefelau'r môr yn codi a chyfraddau cyflymach o erydu'r arfordir.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn nodi'r cyd-destun deddfwriaethol ar gyfer gweithgareddau FCERM yng Nghymru. Mewn rhai achosion, mae hefyd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP), o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009.

| |
|---|
| Cyhoeddwyd Strategaeth Leol gyntaf Gwynedd yn 2014, gan osod cynsail i reoli perygl llifogydd lleol. Ochr yn ochr â'r Strategaeth Leol, cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (FRMP). Datblygodd y FRMP yr amcanion a'r camau gweithredu lefel uchel a amlinellwyd yn y Strategaeth Leol yn gynllun manylach ar gyfer rheoli llifogydd.<br><br>Y Strategaeth Leol sy'n berthnasol i'r asesiad hwn yw'r ail Strategaeth Leol. Mae'r ail yn cynnwys elfennau o'r Strategaeth Leol a'r FRMP wedi eu cydblethu o fewn un ddogfen er mwyn lleihau cymhlethdod a galluogi dull mwy effeithiol o gyfathrebu'r Strategaeth.<br><br>Mae risgiau presennol ac yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â llifogydd ac erydu arfordirol wedi'u nodi yn yr ail Strategaeth Leol. Y nod yw gwneud y darllenydd yn ymwybodol o bob ffynhonnell o lifogydd o fewn eu cymuned, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar y ffynonellau y mae Cyngor Gwynedd yn eu gweithredu fel RMA (Awdurdod Rheoli Risg). |

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

| |
|---|
| Mae'r Cyngor a'r Awdurdodau Rheoli Risg (RMA) yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu cynlluniau sy'n deillio o'r Strategaeth Leol.<br><br>Bydd pob prosiect sy'n deillio o'r Strategaeth Leol yn ystyried nodweddion cydraddoldeb ac ystyriaethau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod datblygu.<br><br>Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a/neu yn unol ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol. |

## 3) Adnabod yr Effaith

### 3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.

| Nodweddion | Sut fath o effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | **Positif** | Nod y strategaeth leol yw lleihau perygl llifogydd lleol i bawb.<br><br>Yr amcanion sy'n berthnasol i'r nodwedd hon yn bennaf yw amcanion 1, 2 a 4 a bydd lleihau'r effeithiau'n cael ei gweld trwy gamau gweithredu sylfaenol 1.1, 1.2, 2.2A a |

| | | |
|---|---|---|
| | | 2.4B. Mae'r camau gweithredu i'w gweld yn llawn ar dudalen 55 o'r Strategaeth Llifogydd.<br><br>Bydd y strategaeth yn ystyried pobl o bob grŵp o fewn y strategaeth gyfathrebu ac wrth baratoi cynlluniau llifogydd cymunedol. Bydd y strategaeth yn datblygu'r strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer pob prosiect unigol fydd yn deillio o'r strategaeth, i annog pobl o bob nodwedd yn y gymuned i gymryd agwedd fwy rhagweithiol at atal a gwrthsefyll llifogydd.<br><br>Bydd gweithrediad y Strategaeth hon yn cael ei fonitro'n agos a'i ddiweddaru yn unol â gofynion y gwasanaeth. |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Niwtral | Ni fydd y gwaith fydd yn deillio o'r strategaeth yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y Gymraeg oherwydd natur y gwaith, fodd bynnag, bydd yn ganolbwynt creiddiol i'r elfen o gyfathrebu. Bydd y strategaeth yn cael ei gweithredu'n ddwyieithog gyda'r holl ddogfennau cysylltiedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y strategaeth hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y gymuned (Amcan 4 yn benodol), gan ganiatáu i'r strategaeth a chamau gweithredu cysylltiedig gael eu cyfathrebu yn Gymraeg a hefyd yn caniatáu gofod diogel i staff sy'n gweithio ar y strategaeth a phreswylwyr ymarfer, siarad a dysgu Cymraeg. |
| **Anabledd** | **Positif** | Bydd lleihau perygl llifogydd yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion anabl. Ystyrir bod y categori hwn yn agored iawn i niwed mewn digwyddiad llifogydd oherwydd efallai na fyddant a'r un gallu i baratoi ar gyfer llifogydd ac ymateb iddynt. Yn ogystal, mae'r elfen o adferiad emosiynol sy'n gysylltiedig â llifogydd.<br><br>Bydd ymdrech yn cael ei wneud yn ystod datblygiad y prosiectau unigol fydd yn deillio o'r Strategaeth i ddeall anghenion y gymuned, adnabod os oes tai wedi eu haddasu ar gyfer amhariad ayyb ac ymateb i hynny o fewn y cynllun.<br><br>Nod amcanion 1, 4 a 5 yn benodol, a'u camau gweithredu cysylltiedig sicrhau cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd cadarn a mecanweithiau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol. |
| **Rhyw** | **Niwtral** | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y strategaeth hon yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar y nodwedd hon, fodd bynnag, bydd gweithrediad y Strategaeth hon yn cael ei fonitro'n agos a'i ddiweddaru yn unol â gofynion y gwasanaeth. |
| **Oedran** | **Positif** | Nod y strategaeth yw lleihau perygl llifogydd lleol i bawb. Bydd lleihau perygl llifogydd yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar y genhedlaeth iau a'r henoed. Ystyrir bod y |

| | | |
|---|---|---|
| | | categorïau oedran hyn yn arbennig o agored i niwed mewn digwyddiad llifogydd oherwydd efallai na fyddant mor gallu paratoi ac ymateb.<br><br>Mae Gwynedd yn sir sydd yn gweld canran gynyddol o boblogaeth sydd yn heneiddiol. Bydd y Strategaeth felly yn adnabod y math o ddemograffeg yn yr ardaloedd hynny sydd o dan risg er mwyn cynllunio unrhyw ystyriaethau i mewn i'r prosiectau unigol fydd yn deillio o'r Strategaeth, pan yn briodol i wneud hynny.<br><br>Nod amcanion 1, 4 a 5 yn benodol, a'u camau gweithredu cysylltiedig, yw sicrhau cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd cadarn a mecanweithiau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | **Niwtral** | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y strategaeth hon yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar y nodwedd yma, fodd bynnag, bydd gweithrediad y Strategaeth hon yn cael ei monitro'n agos a'i diweddaru yn unol a gofynion y gwasanaeth. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | **Niwtral** | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y strategaeth hon yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar y nodwedd yma, fodd bynnag, bydd gweithrediad y Strategaeth hon yn cael ei monitro'n agos a'i diweddaru yn unol a gofynion yn gwasanaeth. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud o fewn prosiectau unigol sydd yn deillio o'r strategaeth i adnabod addoliadau a'u hystyried o fewn y cynlluniau. |
| **Ailbennu rhywedd** | **Niwtral** | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y strategaeth hon yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar y nodwedd yma, fodd bynnag, bydd gweithrediad y Strategaeth hon yn cael ei monitro'n agos a'i diweddaru yn unol a gofynion y gwasanaeth.<br><br>Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y strategaeth hon yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar y nodwedd yma, fodd bynnag, bydd gweithrediad y Strategaeth hon yn cael ei monitro'n agos a'i diweddaru yn unol a gofynion y gwasanaeth. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **Positif** | Mae pobl feichiog a'r rhai ar gyfnod mamolaeth hefyd yn cael eu hystyried yn agored iawn i niwed mewn digwyddiadau o lifogydd. Ystyrir y bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd yma gan y bydd y strategaeth yn annog mwy o ystyriaeth a chynhwysiad lle'n briodol gan unigolion beichiog ac ar gyfnod mamolaeth wrth ddatblygu a chyfathrebu prosiectau.<br><br>Nod amcanion 1, 4 a 5 yn benodol, a'u camau gweithredu cysylltiedig yn sicrhau cynlluniau amddiffyn rhag llifogydd cadarn a mecanweithiau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | **Niwtral** | Nid oes tystiolaeth i awgrymu y bydd y strategaeth hon yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar y nodwedd yma, fodd bynnag, bydd gweithrediad y Strategaeth hon yn cael ei monitro'n agos a'i diweddaru yn unol a gofynion y gwasanaeth. |

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhy, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth.** | Na | Ddim yn berthnasol. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Na | Ddim yn berthnasol i'r math yma o strategaeth, er hynny, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar elfen o gyfathrebu ac adeiladu perthynas dda gyda'r Awdurdodau Rheoli Risg eraill yn ogystal a'r gymuned er mwyn adeiladu gwytnwch llifogydd. |
| **Meithrin perthnasau da** | Na | Ddim yn berthnasol i'r math yma o strategaeth, er hynny, mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar elfen o gyfathrebu ac adeiladu perthynas dda gyda'r Awdurdodau Rheoli Risg eraill yn ogystal a'r gymuned er mwyn adeiladu gwytnwch llifogydd. |

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

| |
|---|
| Bydd y strategaeth yn darparu cyfleoedd i hyrwyddo ac ysgogi eraill i ddefnyddio'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned, rhwng awdurdodau rheoli risg a phartneriaid eraill. Bydd |

hyn yn cael ei wneud yn bennaf drwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg pan yn delio gyda'r cyhoedd a'r awdurdodau rheoli risg.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Un o flaenoriaethau Cyngor Gwynedd o fewn y Cynllun Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2018-23 yw cynyddu presenoldeb a defnydd o'r Gymraeg o fewn y gymuned. Bydd y strategaeth yma'n cyfrannu tuag at y flaenoriaeth yma drwy holl agweddau o'r gwaith, yn enwedig drwy Amcanion 2 a 4 (gweler isod).

Amcan 2: Datblygu ymhellach ddealltwriaeth o berygl llifogydd i Wynedd ac effeithiau newid hinsawdd
Amcan 4: Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac erydu arfordirol lleol

Mae'r asesiad yma yn edrych ar y Strategaeth Leol yn ei gyfanrwydd.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ac anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

O'r grwpiau bregus o fewn y categori dan anfantais economaidd-gymdeithasol, ystyrir bod y grwpiau canlynol yn berthnasol i'r Strategaeth Leol.

**Incwm isel / tlodi incwm**
**Isel a / neu ddim cyfoeth**
**Amddifadedd ardal**
**Amddifaded materol**

Nod y Strategaeth yw cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n profi tlodi incwm neu incwm isel trwy liniaru a rheoli'r tebygolrwydd a chanlyniadau llifogydd i'r cymunedau hynny sydd mewn risg uchel. Mae'n bosib y bydd unigolion ar incwm isel yn llai tebygol o allu paratoi ar gyfer ac adfer o ddigwyddiadau llifogydd, yn benodol o ganlyniad i gostau ynghlwm â difrod llifogydd, premiwm yswiriant ac offer atal llifogydd.

Mae'r strategaeth wedi cymryd hyn i ystyriaeth a'i nod yw lliniaru'r effeithiau uchod trwy ddatblygu llwybr cyfathrebu effeithiol a fydd yn caniatáu ar gyfer deialog dwy ffordd rhwng y Cyngor a thrigolion mewn perthynas â pherygl llifogydd. Nod y Strategaeth yw gwella ymgysylltu a chyfathrebu gydag unigolion a chymunedau (drwy'r cynlluniau unigol fydd yn deillio o'r Strategaeth) i baratoi, ymateb i ac adfer o effeithiau llifogydd.

Chwilio i gyfleoedd o addysgu a chodi ymwybyddiaeth o risgiau llifogydd o oedran ysgol ymlaen er mwyn ceisio sicrhau fod pob grŵp oedran yn derbyn yr un wybodaeth.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Disgwylir i bob prosiect unigol sy'n deillio o'r Strategaeth Leol roi sylw dyledus i'r angen i ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol ac edrych am gyfleoedd pellach i leihau anghydraddoldeb drwy weithrediad y prosiect. |

**4) Dadansoddi'r canlyniadau**

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Ni ystyrir y bydd y strategaeth yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb na dyletswyddau cyffredinol, fodd bynnag, bydd effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol o ganlyniad i gynnydd mewn a gwelliannau i amddiffynfeydd llifogydd a'r dealltwriaeth o lifogydd ac ataliad. Mae'r Strategaeth Leol hefyd yn anelu at adeiladu mwy o wydnwch o fewn y gymuned gyfan er mwyn gallu ymdopi â'r risg o lifogydd. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Na, nid yw'r cynllun yn debygol o gael effaith negyddol sylweddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb. Mae'r Strategaeth yn debygol o gael effaith gadarnhaol. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod y effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth. | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Bydd YGC yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddog Cydraddoldeb yn ystod cyfnod datblygu Drafft y Strategaeth a thu hwnt. Bydd yr elfen gydraddoldeb yn cael ei hadolygu yn rheolaidd a'i addasu law yn llaw â unrhyw newidiadau i'r Strategaeth ei hun / deddfwriaeth. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Bydd pob prosiect sydd yn deillio o'r Strategaeth Leol yn bod yn ystyriol o ystyriaethau nodweddion cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg yn ystod datblygiad y prosiectau. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb a lefel o atebolrwydd ar draws yr holl brosiectau fydd yn deillio o'r Strategaeth, pan yn berthnasol i wneud hynny. |